

# Review for Women yr Arglwydd Farmer Adroddiad Cynnydd

Ionawr 2023

## Cefndir

Roedd Review for Women yr Arglwydd Farmer, a gyhoeddwyd yn 2019, yn adolygiad annibynnol gan yr Arglwydd Farmer, a gomisiynwyd fel rhan o Strategaeth Troseddwr Benywaidd 2018. Roedd gan yr adolygiad gwmpas ehangach nag adolygiad gwreiddiol yr Arglwydd Farmer, i gydnabod ymrwymiad y Strategaeth Troseddwr Benywaidd i wella canlyniadau i fenywod ym mhob cam o'r system gyfiawnder troseddol.

Daeth Review for Women yr Arglwydd Farmer i'r casgliad nad yw 'healthy, supportive relationships are not just a "nice to have" for every woman yn the criminal justice system...they are utterly indispensable'.

Ers cyhoeddi Review for Women yr Arglwydd Farmer, rydym wedi gwneud cynnydd da ar weithredu argymhellion yr Arglwydd Farmer, a hyd yma rydym wedi cwblhau 27 o'r 33 argymhelliad.

Rydym yn dal i weithio yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) a Llywodraeth ehangach i weithredu ar yr holl argymhellion. Rydym wedi ymgorffori pwysigrwydd cysylltiadau teuluol a pherthnasoedd cefnogol wrth gyflawni'r Strategaeth Troseddwr Benywaidd a byddwn yn parhau i fonitro hwn drwy Gynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwr Benywaidd.

## Argymhellion a Gwblhawyd Ymyrraeth Gynnar

Argymhelliad	Diweddariad
<b>4</b> Bydd tudalen lanio tystiolaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Concordat Cenedlaethol yn cynnwys y dysgu o gynlluniau peilot llwyddiannus, fel y bydd	Mae'r Concordat ar fenywod sydd, neu sydd mewn perygl o fod, mewn cysylltiad â'r System gyfiawnder Troseddol, a gyhoeddwyd ar 23 Ionawr 2021, yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut i sefydlu dull system gyfan (WSA) llwyddiannus, sy'n cynnwys adeiladu ar strwythurau presennol, partneriaid allweddol mewn model WSA, arweinyddiaeth, ac awgrymiadau ar ymgysylltu â phartneriaid a chynnal yr ymgysylltiad hwnnw. Mae'r adran hon wedi'i goleuo gan enghreifftiau o ymarfer da o ardaloedd sydd wedi mabwysiadu'r dull system gyfan.

comisiynwyr y dyfodol yn gwybod beth sy'n arfer da a brofwyd.	
---	--

## Atebion Cymunedol

Argymhelliad	Diweddariad
<p><b>5</b> Ffurflenni Llawlyfr Canllawiau (MG) i gael eu newid gan y Llywodraeth i gofnodi gwybodaeth am ddibynyddion troseddwr</p>	<p>Mae Ffurflenni Llawlyfr Canllawiau, sy'n cael eu defnyddio i rannu gwybodaeth rhwng yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), yn cael eu diddymu gan yr Heddlu o 2024 a byddant yn cael eu disodli gan y Ffeil Achos Digidol (DCF) erbyn mis Mawrth 2025. Mae gwaith ar hyn yn cael ei wneud eisoes ac mae canllawiau ar gyfer y Ffeil Achos Digidol wedi'u diwygio i sicrhau y bydd y system newydd yn hwyluso casglu'r wybodaeth hon gan asiantaethau perthnasol, gan gynnwys yr heddlu.</p>
<p><b>6</b> Effaith remand ar ddibynyddion i gael ei ystyried mewn unrhyw benderfyniad ar fechnïaeth.</p>	<p>Buom yn gweithio â Thîm Ymarfer Effeithiol y Gwasanaeth Prawf ym Mehefin 2020 ar yr Adroddiad Gwybodaeth Mechnïaeth Cenedlaethol, sy'n awr yn cynnwys nodyn penodol ar gyfer awduron adroddiadau i ystyried yr effaith ar blant dibynnol. Drwy Gynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwr Benywaidd, byddwn yn parhau i wella mynediad at gymorth mechnïaeth i fenywod ar remand a chynyddu ymwybyddiaeth llysoedd o gyfrifoldebau gofal.</p>
<p><b>6i a</b> Os gwneir penderfyniad i remandio diffynnydd sy'n brif ofalydd rhoddir cyfle iddynt i wneud cysylltiad dros y ffôn â'r teulu neu ofalwyr eraill cyn gadael y llys i wneud trefniadau ar gyfer ei dibynyddion.</p> <p><b>6ii</b> Gofynnir i fenywod sydd wedi'u dedfrydu i garchar a oes angen iddynt wneud cyswllt ffôn â dibynyddion neu drefnu gofal plant a chaniatáu iddynt i wneud hynny cyn eu rhoi mewn cludiant.</p>	<p>Mae Arferion Gweithredu Safonol (SOPau) y contractau ar gyfer y gwasanaeth PECS wedi'u diweddaru. Mae'r polisi yn awr yn caniatáu cyfle i wneud galwad ffôn os bydd y prif ofalydd yn mynd i'r ddalfa heb gyfle blaenorol i wneud cysylltiad dros y ffôn. Mae'r taflenni 'Hawliau Carcharorion' a 'Menywod yn y Ddalfa' wedi'u cyfieithu i 27 o ieithoedd.</p>

<b>7</b>	Y Llywodraeth i adolygu rheoliadau sy'n atal plant rhag byw mewn Mangre a Gymeradwywyd.	Cynhaliwyd adolygiad rhagarweiniol a ddaeth i'r casgliad nad yw'n hyfyw i ganiatáu plant mewn Mangre a Gymeradwywyd dan unrhyw amgylchiadau, oherwydd pryderon am ddiogelwch. Bydd hyn yn cael ei adolygu mewn gwaith ar Fangreoedd a Gymeradwywyd yn y dyfodol.
<b>7i</b>	Bydd Menywod mewn Mangre a Gymeradwywyd neu sy'n cael eu cartrefi gan Wasanaethau Cymorth Llety Mechnïaeth sydd â phlant, ac sy'n cael trafferth â rhianta a pherthnasoedd neu deuluol, yn cael eu hannog i ymgysylltu (yn wirfoddol) â Chanolfannau Blynnyddoedd Cynnal neu Deulu, naill ai drwy atgyfeirio eu hunain neu drwy gael eu hatgyfeirio gan ganolfannau menywod, gweithwyr cymdeithasol neu weithwyr proffesiynol.	Mae Gwasanaethau Cymorth Mangre a Gymeradwywyd a Llety Mechnïaeth yn awr yn annog unrhyw fenyw yn eu gofal ac sy'n cael trafferth â rhianta a pherthnasoedd neu deuluol i ymgysylltu â Chanolfannau Blynnyddoedd Cynnal neu Deulu. Yn achos Mangreoedd a Gymeradwyir mae hyn wedi'i ffurfioli yn y disgwyliadau wedi'u diweddarau ar gyfer Safonau Gofynnol Mangreoedd a Gymeradwyir ar gyfer Menywod.
<b>8i</b>	Bydd gwybodaeth fanwl ar berthnasoedd a chysylltiadau teuluol a geir yn systematig drwy'r broses PSR ar gael i gynllunwyr dedfrydau i lywio carcharu a phenderfyniadau eraill.	Cafodd yr Aide Memoire ei gyflwyno ym mis Awst 2019 a dylai gael ei ddefnyddio wrth baratoi pob PSR ar fenywod. Mae'n ymdrechu i sicrhau bod y cwestiynau cywir yn cael eu gofyn i sicrhau bod asesiadau da'n cael eu gwneud a chafodd ei ddylunio i amlygu meysydd allweddol i ymarferwyr eu hystyried wrth asesu anghenion amrywiol menywod (gan gynnwys perthnasoedd a chysylltiadau teuluol) yng nghyd-destun troseddau ac i wneud cynnig o ddedfryd gymunedol pa bryd bynnag y byddai hynny'n briodol.
<b>8ii</b>	Bydd llysoedd yn datgan yn glir pan fyddant yn gofyn am Adroddiadau Cyn Dedfrydu (PSR) os mai'r asesiad cychwynnol yw bod y trothwy carchar wedi'i basio, a dylai menywod sydd ag euogfarn gael eu hysbysu o hyn gan yr unigolyn sy'n cynnal y cyfweiliad PSR.	Pan ofynnir am adroddiad a bod dedfryd o garchar heb ei diystyru (oherwydd natur y drosedd) bydd yr ynad yn datgan yn glir i'r diffynnydd bod pob opsiwn dedfrydu'n cael eu cadw'n agored, gan gynnwys carchar. Bydd awduron PSRau hefyd yn dweud wrth droseddwyr bod posibilrwydd o garchar, a bod gwybodaeth a gesglir yn ystod y broses PSR ar gael fel arfer i gynllunwyr dedfrydau.

9	<p>Mae'r Concordat Cenedlaethol ar gyfer Troseddwr Benywaidd yn tynnu sylw at y rôl y gall canolfannau menywod ei chwarae drwy ddefnyddio dulliau system gyfan ac edrych ar gyfleoedd i ddwyn ynghyd gyllid trawslywodraethol ar gyfer y gwasanaethau maent yn eu darparu, o gofio'r arbedion posibl i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac adrannau eraill y llywodraeth.</p>	<p>Mae'r Concordat yn amlygu'r rolau allweddol y gall canolfannau menywod eu chwarae'n aml drwy ddefnyddio Dulliau System Gyfan (WSA) yn effeithiol. Bydd Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwr Benywaidd yn cynnwys gwaith i ganfod holl ffrydiau cyllido perthnasol y Llywodraeth. Bydd hyn yn tynnu sylw at gyfleoedd, gan gynnwys ystyried uno ffrydiau cyllido.</p>
10	<p>O ystyried y goblygiadau gwariant penodol ar draws llywodraeth ar gyfer troseddu menywod, fel rhai sy'n gysylltiedig â'r tebygrwydd uwch y bydd eu plant yn diweddu yng ngofal yr awdurdod lleol, bydd gan y Bwrdd Lleihau Aildroseddu (sy'n mabwysiadu dull trawslywodraethol) yn cael arweinydd gweinidogol ar gyfer ac yn rhoi sylw rheolaidd i anghenion penodol troseddwr benywaidd.</p>	<p>Bydd y Bwrdd Menywod yn y System gyfiawnder Troseddol, sy'n cael ei gadeirio gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am droseddwr benywaidd a gyda gweinidogion o adrannau eraill yn bresennol, yn cwrdd bob chwe mis i fonitro ac i gyfarwyddo cynnydd Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwr Benywaidd. Mae Grŵp Arbenigol gyda phwyslais ar randdeiliaid a Bwrdd Cyflawni trawslywodraethol ar wahân yn cynorthwyo Bwrdd y WCJS drwy gynghori ar faterion sy'n effeithio ar fenywod yn y System gyfiawnder Troseddol a thrwy gydlynw gwaith y llywodraeth ar y Cynllun Cyflawni.</p>
11	<p>Cyllid i ganolfannau menywod i'w wneud yn gynaliadwy, gyda'r asiantaethau hynny sy'n atgyfeirio menywod (gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a darparwyr Prawf) yn talu am wasanaethau craidd a hefyd y rhai hynny sy'n arbed drwy'r ymyriadau a ddarperir ganddynt, fel iechyd ac awdurdodau lleol.</p>	<p>Rydym yn buddsoddi £45m yn y sector cymunedol i fenywod rhwng Mehefin 2021 a Mawrth 2025 drwy gcontractau gwasanaethau adsefydlu a gomisiynwyd drwy'r Fframwaith Dynamig. Rydym wedi gwneud buddsoddiad uniongyrchol o £9.5m ers 2018 ac ar 1 Medi 2022, cyhoeddwyd gennym y bydd hyd at £24m yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol i fenywod yn ystod y 3 blynedd nesaf drwy gystadleuaeth grant aml-flwyddyn.</p>
13	<p>Bydd modelau o ganolfannau cadw'n cael eu hystyried fel rhan o strategaeth dymor hwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer menywod sydd wedi cyflawni trosedd sy'n ddigon difrifol i haeddu dedfryd o garchar,</p>	<p>Fel y nodwyd ym Mhapur Gwyn ein Strategaeth Carchardai, ein huchelgais am y tymor hwy yw cyflwyno amgylcheddau cadw llai sy'n ystyriol o drawma i fenywod ar ddedfrydau byr. Bydd hyn yn cynnwys pwyslais ar ddarparu darpariaeth gymunedol mewn carchardai, gyda phwyslais ar faterion caethiwed i alcohol a sylweddau ac anghenion cymhleth, ac ar gadw menywod yn agos at eu cartrefi.</p>

	ond sy'n risg digon isel i gael cadw gofal am eu plant.	
<b>14</b>	Bydd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi'n asesu effaith argymhellion cyd-adolygiad thematig 2014 ar y ddarpariaeth Ailsefydlu ar gyfer troseddwy'r benywaidd, yng ngoleuni Strategaeth Troseddwy'r Benywaidd y MoJ.	Mae Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaeth Carchardai EM wedi cyhoeddi eu hadroddiad cyntaf ar y model Rheoli Troseddwy'r yn y Ddalfa (OMiC) (mis Hydref 2022). Roedd gwaith maes yn yr ystâd carchardai yn cynnwys un carchar menywod. Mae'r fethodoleg arolygu'n cynnwys adolygiad o waith a wnaed yn y carchar gyda gwaith dilynol chwe mis yn ddiweddarach a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ailsefydlu dechreuol ac yn y tymor canolig. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol fis Mawrth 2023. Gweithredir ar argymhellion yr Adolygiad drwy'r Cynllun Cyflawni.
<b>15 (i)</b>	Sicrhau bod cymorth i deuluoedd a pherthnasoedd eraill wedi'u cynnwys yng ngofynion contract y darparwyr prawf newydd a'u bod yn cael eu defnyddio i asesu eu cynigion.	Mae gwasanaethau i fenywod ar gael ar y Fframwaith Dynamig Gwasanaethau Adsefydlu a Gomisynir (CRS). Mae gwasanaethau teuluol yn rhan allweddol o'r fanyleb ar gyfer gwasanaethau i fenywod ac mae'n pwysleisio gwerth gweithio â chanolfannau menywod pan yn bosibl.
<b>15 (ii)</b>	Rhoi sylw i broblemau galw'n ôl i garchar a all ddeillio o gefndir perthynol y troseddwr, fel eu statws fel y prif, ac yn aml yr unig ofalwr: cosbau heblaw galw'n ôl i garchar i gael eu defnyddio sy'n adlewyrchu bwriad i adsefydlu'r cyfnod goruchwyllo o 12 mis gydag adsefydlu a pherthnasoedd yn flaenllaw mewn arferion prawf a galw'n ôl i garchar yn fesur a gymerir mewn modd cymesurol yn unig ac yng ngoleuni'r ystyriaethau cyffredinol hyn.	Bydd ymgysylltu cynnar yn sicrhau bod gan ymarferwyr prawf well ymwybyddiaeth o lawer o faterion a allai arwain at alw'n ôl i garchar fel y gellir cymryd camau i osgoi torri amodau trwydded ymlaen llaw. Cyhoeddir canllawiau i ymarferwyr ar wneud yn siŵr bod amodau trwydded yn ddealladwy a bod materion a allai arwain at dorri amodau trwydded yn cael sylw'n ddigon cynnar.
<b>15 (iii)</b>	Egluro pwy sy'n gyfrifol yn lleol am sicrhau llety ar ôl rhyddhau.	Rydym yn cyflwyno timau prawf cyn rhyddhau ym mhob carchar menywod ac a fydd yn gweithio â darparwyr lleol i roi sylw i anghenion tai. Rydym hefyd wedi cyflwyno Arbenigwyr Tai Strategol mewn 20 carchar y llynedd. Mae pedair o'r rolau hyn mewn carchardai menywod: HMP Styal, Bronzefield, Peterborough a New Hall. Mae ein Papur Gwyn yn disgrifio ein hymrwymiad i gynyddu nifer yr Arbenigwyr Tai Strategol o 20 i 48 yng Nghymru a Lloegr. Byddwn yn recriwtio hyd at naw erbyn diwedd Ionawr 2023 mewn carchardai menywod.

<b>15 (iv)</b>	Sicrhau bod pob troseddwr yn cael cymorth ailsefydlu priodol drwy'r giât gan gynnwys eu rhoi mewn cysylltiad â gwasanaethau allanol tra byddant yn dal yn y ddalfa.	Rydym yn cyflwyno timau prawf cyn rhyddhau ym mhob carchar menywod. Bydd darparwyr yn gweithio â thimau Drwy'r Giât i roi menywod mewn cysylltiad â gwasanaethau yn y gymuned tra byddant yn dal yn y ddalfa. Bydd swyddogaeth dedfryd fer yn sicrhau bod ymarferwyr prawf yn gallu canolbwyntio ar gynnal yr hyn sydd eisoes ar gael i rai ar ddedfrydau byr ac a fydd yn rhoi menywod ar lwybr carlam i wasanaethau cymorth yn y gymuned.
<b>16</b>	Dyraniadau tai cymdeithasol i gydnabod anghenion troseddwr benywaidd â phlant sy'n gadael carchar	Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i newid y canllawiau dyrannu statudol a byddwn yn parhau i adolygu'r mater. Mae DLUHC yn parhau i gydnabod anghenion troseddwr benywaidd wrth iddynt fwrw ymlaen â gwaith ar ddyraniadau tai cymdeithasol. Mae DLUHC wedi ystyried ac wedi myfyrio ar anghenion troseddwr benywaidd mewn fersiwn wedi'i diweddarau o'r Cod Canllawiau Digartrefedd yng Ngorffennaf 2021.

## Dalfeydd Gwell

<b>Argymhelliad</b>		<b>Diweddariad</b>
<b>18i</b>	<p>Pob carchar i adolygu'r menywod yn eu gofal yn rheolaidd, a theuluoedd/perthnasau arwyddocaol sy'n ymweld i ganfod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• faint oedd yn gallu mynychu dyddiau teuluol a mathau eraill o ymweliadau estynedig o'u cymharu â faint a hoffai fynychu</li> <li>• a oes grwpiau penodol (fel menywod sy'n wladolion o dramor a rhai sydd wedi gadael gofal) yn cael eu hallgau o ymweliadau estynedig am nad oes</li> </ul>	Ar hyn o bryd, mae arolygon yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn ym mhob sefydliad yn Ystâd y Menywod gan ddarparwyr teulu, ac rydym wedi gweithio â darparwyr i gynyddu ymgysylltiad â'r arolygon presennol ac i sicrhau bod canlyniadau'n cael sylw. Mae contractau newydd wedi bod yn weithredol ers 1 Hydref.

	<p>ganddynt aelodau o'u teulu a allai fynychu ond sydd â ffrindiau/eraill arwyddocaol a fyddai'n dod pe baent yn gymwys</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sawl diwrnod a allai eu teuluoedd/eraill arwyddocaol eu mynychu bob blwyddyn</li> <li>• pa amseroedd fyddai fwyaf addas i blant a phobl ifanc</li> </ul>	
<b>18ii</b>	<p>Carchardai i gyflwyno tystiolaeth bod canlyniadau arolygon wedi cael eu trafod a bod unrhyw faterion a amlygwyd gan yr arolwg yn cael sylw drwy gynllun gweithredu i wella a luniwyd gyda'r cyngor preswylwyr a'r fforwm teuluoedd.</p>	<p>Mae'r gofyniad i ymateb i arolygon hefyd wedi'i gynnwys yn y Mesur Perfformiad Teuluoedd.</p>
<b>19</b>	<p>Pob carchar i ddarparu gofod ffisegol lle gall menywod dreulio amser personol ag aelodau o'r teulu ac unigolion arwyddocaol eraill ar ôl cynnal asesiad risg priodol a gyda gweithdrefnau diogelu ar waith (gyda dealltwriaeth efallai y byddai angen i lywodraethwyr roi blaenoriaethu i'r gofod hwn ar gyfer ymweliadau sensitif, fel cyn mabwysiadu, a rhai sy'n gysylltiedig â'r llys teulu.)</p>	<p>Dywedodd pob carchar fod ganddynt ofod a oedd yn cyflawni'r gofyniad hwn o ran darparu gofod preifat ar gyfer trafodaethau mabwysiadu a materion eraill y llys teulu. Ym Mhapur Gwyn y Strategaeth Carchardai, rydym wedi nodi ein hymrwymiad i gyflwyno unedau teuluol (lle gall menywod gael ymweliadau estynedig ac arosiadau dros nos gyda'u plant) ym mhob carchar menywod.</p>
<b>20</b>	<p>Bod y System Cyfathrebu Gateway yn un ddwyffordd fel y gall menywod mewn carchar fynegi pryderon, a thrwy hynny leddfu eu pryder eu hunain a dangos i rai ar y tu allan nad ydynt wedi cael eu hanghofio.</p>	<p>Rydym wedi gwneud sawl gwelliant i wella cyfathrebu i garcharorion, gan gynnwys cyflwyno systemau galwadau fideo ac ateb negeseuon e-bost ym mhob carchar menywod, telefoni mewn celloedd ym mhob carchar menywod caeedig. Rydym yn bwriadu cynyddu nifer y staff cymorth drwy gyflogi rhagor o weithwyr ymgysylltu teuluol a threialu gweithwyr cymdeithasol mewn carchardai.</p>
<b>21</b>	<p>Argymhellion yr Adolygiad hwn i gael eu hychwanegu at gynllun gweithredu Adolygiad gwreiddiol yr Arglwydd Farmer,</p>	<p>Rydym wedi derbyn argymhelliad yr Arglwydd Farmer bod y gwaith hwn yn cael ei ymgorffori yng nghynllun gweithredu Adolygiad gwreiddiol yr Arglwydd Farmer, ac</p>



	gyda chynnydd yn cael ei fonitro ac yr adroddir arno yn yr un ffordd. Mae'r argymhelliad hwn eisoes wedi'i dderbyn gan y MoJ.	felly rydym yn gwneud y gwaith hwn drwy bolisi a gweithredu ar y cyd â'r Bwrdd Strategol Teuluoedd ac Unigolion Eraill Arwyddocaol.
<b>22</b>	Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i sicrhau bod pwysigrwydd cysylltiadau teuluol yn cael lle amlwg yn y Disgwyliadau ar gyfer carchardai menywod pan fyddant yn cael eu hadolygu, fel y bydd llywodraethwyr yn gwybod bod yn rhaid i hyn fod yn flaenoriaeth drawsbynciol yn y ffordd mae eu carchar yn cael ei redeg.	Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi wedi datblygu set lawn o ddisgwyliadau, a gyhoeddwyd yng Ngwanwyn 2021. Roedd pwysigrwydd cynnal cysylltiadau teuluol wedi'i gynnwys yn y Disgwyliadau newydd.
<b>23</b>	Mesur carchar sy'n gysylltiedig â theuluoedd i gael ei ddiffinio gyda'r nod o: <ul style="list-style-type: none"> <li>• cymharu carchardai tebyg ac a ddefnyddir felly mewn ffordd gymharol yn hytrach nag absoliwt</li> <li>• annog gwelliant parhaus ym mhob carchar</li> <li>• bod yn ymatebol i anghenion a materion sy'n benodol i garchardai menywod</li> </ul>	Mae Mesur Perfformiad Teuluoedd yn un o'r 14 Dangosydd Allweddol sydd wedi'u cynnwys yn yr Offeryn Perfformiad Carchardai ar gyfer blwyddyn berfformiad 2022-23. Defnyddiwyd canfyddiadau o'r mesur cysgodol yn 2019 i lywio mesur eleni, gan gynnwys gwell defnydd o ddata i gryfhau hunanasesu. Bydd hyn yn parhau i gael ei ailadrodd o flwyddyn i flwyddyn.
<b>24</b>	Polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ganiatáu llywodraethwyr mewn carchardai menywod i ddefnyddio ROTL mewn ffordd fwy creadigol ac uchelgeisiol i alluogi menywod i ailafael mewn cysylltiad â theulu ac i dderbyn cyfrifoldebau gofal, a bydd HMPPS yn edrych ar y cwmpas i ddefnyddio technoleg monitro lle bydd angen.	Mae fframwaith polisi newydd a gyhoeddwyd fis Mai 2019 yn caniatáu llywodraethwyr i awdurdodi ROTL yn gynharach ac yn amlach ar gyfer dynion a menywod. Mae hyn yn caniatáu mynediad at ystod eang o weithgarwch sy'n ymwneud ag ailsefydlu, gan gynnwys hwyluso gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill.
<b>25</b>	Cymhwysra ar gyfer Absenoldeb Ailsefydlu Plentyn i beidio â bod yn ddibynnol yn unig ar statws unig ofalwr ond dylid ei ehangu i gynnwys amgylchiadau teuluol eraill, fel y gall menywod mewn carchar barhau â'u	Cafodd y Drwydded Ailsefydlu Gofal Plant ei hymestyn i gynnwys prif ofalwyr ac nid unig ofalwyr yn unig. Mae'r polisi hwn wedi galluogi dynion a menywod i gael eu rhyddhau dros nos yn gynharach, ar yr amod bod eu rhyddhau am ddiwrnod yn mynd yn iawn.

	cyfrifoldebau gofal er budd y plant, gofalwyr eraill ac adsefydlu troseddwyr.	
<b>26</b>	Adolygiad Achos o blant a gymerwyd oddi ar brif ofalwyr pan oeddent yn mynd i garchar i gael ei gynnal gan Brif Weithiwr Cymdeithasol Lloegr (Plant a Theuluoedd), i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud bob amser er budd pennaf y plant. Dylai'r adolygiad edrych ar ymarfer gwaith cymdeithasol, gan gynnwys rôl gwasanaethau cymorth i gadw teuluoedd gyda'i gilydd.	Cynhaliodd y Prif Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer Plant a Theuluoedd adolygiad achos o geisiadau i Unedau Mamau a Babanod yn y cyfnod 2018-2020. Cafodd ei gyhoeddi ar 24 Tachwedd 2022. Mae'r adolygiad yn cynnwys canfyddiadau arolwg o weithwyr cymdeithasol o'u gwybodaeth, eu hagweddau a'u profiad o weithio â mamau mewn carchar, ac adolygiad thematig o'r holl achosion oedd ar gael yn y cyfnod hwnnw. Mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at y Prif Weithiwr Cymdeithasol yn ymateb i'r argymhellion yn ei hadroddiad ac mae gwaith yn cael ei wneud fel sy'n briodol.
<b>27</b>	Dyrannu cyllid fel y bydd gweithwyr ymgysylltu teuluol ychwanegol, sy'n gweithio'n unol â'r model wedi'i werthuso a ddatblygwyd gan y Cynghrair Cymorth Teulu, ar gael ym mhob carchar menywod.	Rydym wedi cael cyllid i gyflogi rhagor o weithwyr ymgysylltu teuluol yn ystâd y menywod. Bydd hyn yn cael ei roi ar waith yn ystod y 12 mis nesaf.
<b>28</b>	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ariannu gweithiwr cymdeithasol ar y safle fel rhan o'r tîm amlddisgyblaethol ym mhob carchar.	Rydym yn ariannu peilot ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn Ystâd y Menywod a fydd yn para tan 2025. Rydym yn anelu at gael y gweithwyr cymdeithasol cyntaf yn eu lle erbyn 2023 a byddwn yn defnyddio hyn i wella trefniadau gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu rhwng carchardai ac awdurdodau lleol wrth helpu menywod yn y ddalfa.
<b>29</b>	Er mwyn sicrhau cysondeb yn y ffordd mae cynlluniau e-bost carcharorion yn gweithredu, bydd pob sefydliad menywod (nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes) yn datblygu system ateb negeseuon e-bost.	Ers Gwanwyn 2021 mae gan bob carchar menywod system ateb negeseuon e-bost.
<b>30</b>	Rhoddir blaenoriaeth i ystâd y menywod yn ei chyfanrwydd i gyflwyno ymweliadau rhithiol gyda phob menyw yn gallu defnyddio cyfleusterau, oni bai bod pryderon am ddiogelwch, oherwydd yr effaith bositif anghymesur ar blant. Rhaid cael cyfleusterau cynadledda fideo diogel mewn	Mae technoleg Galwadau Fideo Diogel bellach ar gael yn Ystâd y Menywod. Mae carcharorion yn defnyddio gliniaduron diogel i wneud galwadau fideo. Ein nod yw gweld cynnydd o tua 4 yn nifer y safleoedd sy'n defnyddio Canolfannau Cynadleddau Fideo (VCC) yn Ystâd y Menywod yn ystod y 3 blynedd nesaf. Mae VCC wedi'u dynodi ar gyfer llysoedd troseddol yn ogystal ag ymweliadau swyddogol, gan gynnwys ymgynghoriadau cyfreithiol, cyfweliadau prawf neu pan fydd capasiti'n caniatáu,

	Ileoliadau a reolir gan adrannau eraill o'r llywodraeth.	cysylltiad â Gweithwyr Cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill mewn cyd-destun ailsefydlu neu adsefydlu.
<b>31</b>	Teleffoni mewn celloedd (ICT) i'w gyflwyno ym mhob carchar menywod fel rhan o'r don nesaf o osodiadau o gofio bod cymaint o fenywod yn brif ofalwyr.	Mae gan bob carchar menywod caeedig deffoni mewn celloedd erbyn hyn.
<b>32</b>	Ystyried treialu'r defnydd o ffonau syml, heb allu i gysylltu â'r rhyngwyd fel datrysiad llai costus.	Fel rhan o ymateb y Llywodraeth i'r pandemig COVID-19, dosbarthwyd ffonau symudol heb allu i gysylltu â'r rhyngwyd i'r sefydliadau yn ystâd y menywod heb deffoni mewn celloedd.
<b>33</b>	Darparwyr galwadau i drin carcharorion yn yr un ffordd â chwsmeriaid eraill a darparu pecynnau 'galwyr mynych' a phecynnau eraill sy'n eu galluogi i siarad mwy â'r bobl sydd bwysicaf iddynt.	Mae costau galwadau wedi'u gostwng yn sgil negodiadau contract ac mae galwadau Teleffoni mewn Celloedd rhatach ar gael ym mhob carchar menywod caeedig.

# Argymhellion heb eu gweithredu

## Ymyrraeth Gynnar

Argymhelliad	Diweddariad
<p><b>1</b> Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (neu grwpiau lleol strategol cyfatebol) i gymryd cyfrifoldeb am feithrin cysylltiadau ac annog pob gwasanaeth i ddefnyddio dull cydlynus i roi sylw i anghenion troseddwr benywaidd (menywod mewn perygl o droseddu). Dylai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ymgymryd â rôl arweiniol i hwyluso'r cydweithredu hwn rhwng partneriaid yn y system, i sicrhau ymateb effeithlon i angen lleol.</p>	<p>Rydym wedi gweithio â Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ers 2019 i ddeall amrywiadau lleol mewn gweithio mewn partneriaeth a'r heriau maent yn eu profi. Fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni, byddwn yn adeiladu ar hyn drwy weithredu ein Concordat a datblygu cyfres o ddiwyddiadau "Sut I" i helpu ardaloedd lleol i ddatblygu dull partneriaeth i helpu menywod yn y System gyfiawnder Troseddol.</p>
<p><b>1i</b> Gwasanaethau cam-drin domestig i gael eu hintegreiddio a'u cydleoli pan yn bosibl, a gweithio mewn partneriaeth â help o ffynonellau eraill mae menywod yn barod i fanteisio arno, gan gynnwys canolfannau menywod, a chyllid lleol cynaliadwy, fel rhan o'r dull system gyfan, ar gyfer ystod o raglenni a brofwyd i ddiwallu anghenion amrywiol.</p>	<p>Roedd pwysigrwydd cael mynediad at wasanaethau cam-drin domestig fel rhan o Ddulliau System Gyfan a gweithio mewn partneriaethau lleol wedi'i gynnwys yn y Concordat. Roedd anghenion menywod yn y System gyfiawnder Troseddol hefyd wedi'u cydnabod yn y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Genethod a'r Strategaeth Cam-drin Domestig. Byddwn yn parhau i sicrhau bod cyflawni'r strategaethau hyn yn helpu menywod yn y System gyfiawnder Troseddol a byddwn yn ariannu staff arbenigol i helpu menywod mewn carchar sydd wedi profi cam-drin domestig a/neu drais rhywiol.</p> <p>Rydym hefyd erbyn hyn wedi cyhoeddi Bil Dioddefwyr drafft a fydd yn rhoi dioddefwyr yng nghalon y system gyfiawnder troseddol.</p>

2	<p>Gwasanaethau cyswllt a dargyfeirio, a'r heddlu (boed ar adeg arestio neu pan fydd penderfyniad y tu allan i'r llys yn cael ei ystyried) i fanteisio ar gyfleoedd i gasglu gwybodaeth ar berthnasoedd allweddol menywod i sicrhau canlyniadau gwell iddynt hwy a'u teuluoedd. Ar ôl cael ei chydysniad, cedwir yr wybodaeth hon mewn ffeil electronig bersonol (Ffeil Amgylchiadau Personol) a fydd yn cael ei chario gyda hi ac ychwanegir ati tan yr adeg pan ddaw ei chysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol i ben.</p>	<p>Rydym wedi asesu ble mae'r wybodaeth hon eisoes yn cael ei chasglu a'i rhannu, lle mae bylchau ac rydym yn ystyried sut i integreiddio nodau'r argymhellion hwn yn ein systemau, gan gynnwys drwy Adroddiadau Cyn-dedfrydu, Adroddiadau Gwybodaeth Mechniaeth, Offeryn Sgrinio Dalfeydd a phasbortau Ailsefydlu. Mae NHSE&amp;I yn cynnal adolygiad o'r llwybr troseddwr benywaidd L&amp;D ac yng Nghynllun Cyflawni'r Strategaeth Troseddwr Benywaidd rydym wedi ymrwmo i weithio â'r Heddlu i ddatblygu pecyn cymorth tactegol a disgwyliadau gofynnol wrth weithio â menywod agored i niwed erbyn Mawrth 2023.</p>
3	<p>Gwaith teulu a pherthnasoedd i'w gynnwys yn rheolaidd yn y rhaglenni llwybr dargyfeirio / penderfyniadau y tu allan i'r llys</p>	<p>Mae'r Ddeddf PCSC wedi cyflwyno fframwaith dwy haen. Bydd y diwygio hwn yn arwain at dryloywder a chysondeb OOCOD ym mhob heddlu ac yn galluogi'r heddlu i osod rhyw amod ar bob OOCOD. Canfu adolygiad fod tua thraean yr heddluoedd wedi dewis canolbwyntio OOCOD ar garfanau agored i niwed, gan gynnwys menywod, a byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn drwy'r Cynllun Cyflawni.</p>

## Atebion Cymunedol

	Argymhelliad	Diweddariad
8	<p>O ystyried cymhlethdod bywydau llawer o droseddwr benywaidd, a'r tebygrwydd uwch eu bod yn brif ofalwyr, bydd cael Adroddiad Cyn-dedfrydu ysgrifenedig yn orfodol i bob menyw (a dynion sy'n brif ofalwyr) cyn y rhoddir dedfryd o garchar (os nad oes adroddiad diweddar ar gael)</p>	<p>Mae'r ddeddfwriaeth fel y mae wedi'i hysgrifennu ar hyn o bryd eisoes yn gofyn bod y llys yn cael adroddiad cyn-dedfrydu ym mhob achos oni phenderfynir nad oes angen un. Byddai hyn eisoes yn cofnodi menywod a phrif ofalwyr sy'n mynd drwy system y llys. Fodd bynnag, rydym yn deall yr angen i wella argaeledd adroddiadau cyn-dedfrydu i ddiffynyddion benywaidd. Rydym yn cynnal Peilot Adroddiadau Cyn-dedfrydu sy'n rhoi prawf ar fodel cyflawni amgen ar gyfer carfanau sy'n cynnwys menywod. Mae'r peilot hwn wedi bod yn weithredol mewn 15 o Lysoedd Ynadon ers Mai 2021. Cyhoeddir y broses werthuso yng ngwanwyn 2023 a chaiff gwerthusiad o'r canlyniad i gwmpasu ymhellach gan</p>

		ddisgwyl y bydd unrhyw ganfyddiadau ar gael yn ystod hydref 2023, yn amodol ar gyllid ac adnoddau.
<b>8ii</b>	Fel rhan o'r dull system gyfan, bydd gweithiwr proffesiynol arweiniol yn sicrhau bod cymorth ar gael (fel arfer gan sefydliadau menywod) yn y cam cyn-dedfrydu, i helpu menywod i baratoi eu plant, aelodau'r teulu a ffrindiau a all fod mewn sefyllfa i'w helpu yn ystod cyfnod yn y ddalfa, ar gyfer y posibilrwydd o garchariad.	Mae'r Concordat yn amlygu'r rôl allweddol y gallai canolfannau a gwasanaethau menywod ei chwarae'n aml i gyflawni Dulliau System Gyfan (WSA). Byddwn yn annog comisiynwyr lleol i ddarparu'r gwasanaeth hwn drwy weithredu'r Concordat a chanllawiau ar gomisiynu lleol.
<b>12</b>	Canolfannau preswyl i fenywod i gynnwys lle i fenywod ddod â'u plant, os na fyddent mewn llety digon sefydlog fel arall, lle gallant gwblhau gorchmynion cymunedol.	Rydym wedi prynu safle ar gyfer canolfan preswyl i fenywod yn Abertawe. Cafodd ein cais cynllunio i newid defnydd ei wrthod gan bwllgor cynllunio Abertawe ac mae Gweinidogion yn ystyried y camau nesaf.

## Dalfeydd Gwell

<b>Argymhelliad</b>		<b>Diweddariad</b>
<b>17</b>	HMPPS i wneud gwelliannau sylweddol i'r cynllun Cymorth ar gyfer Ymweliadau Carchar ar gyfer prif ofalwyr (gwrywaidd a benywaidd) mewn carchar gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• rheolau mwy hael</li> <li>• hysbysebu gwell ar sut maent yn gweithredu, gan gynnwys rhagdaliadau</li> </ul>	Rydym yn treialu newidiadau i'r cynllun i alluogi mwy o blant i ymweld a fydd yn cael eu gwerthuso a byddwn yn gweithredu ar argymhellion. Bydd y cynllun Help ag Ymweliadau'n cael ei ail-lansio gyda phosteri a thafleuni newydd ar gael ym mhob carchar. Noder: Yr enw newydd ar y cynllun Cymorth ar gyfer Ymweliadau Carchar yw'r cynllun Help ag Ymweliadau.

- |  |  |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"><li>• mwy o hyblygrwydd o ran pwy all hawlio treuliau</li><li>• treialu newidiadau i sicrhau eu bod yn arwain at y canlyniad dymunol i alluogi mwy o blant i ymweld â'u mamau (neu brif ofalwyr)</li></ul> |  |
|--|--|

## Menywod o Gefndir Ethnig Amrywiol a Gwladolion Tramor

Nid yw'r Arglwydd Farmer wedi gwneud argymhelliad uniongyrchol ar gynorthwyo menywod o gefndir ethnig amrywiol na gwladolion tramor ond mae wedi crybwyll yr angen i fod yn gymwys yn ddiwylliannol i weithredu ar yr argymhellion. Rydym yn cydnabod yr heriau unigryw y mae'r garfan hon o fenywod yn eu hwynebu ac rydym wedi sefydlu'r Gweithgor Troseddwr Benywaidd o Leiafrifoedd Ethnig (FOME) i oruchwyllo ffrydiau gwaith gyda'r nod o wella canlyniadau i'r grŵp hwn.

Yn ychwanegol at hyn, rydym wedi gwneud ymchwil sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr i ganfod rhwystrau posibl y mae menywod o gefndiroedd ethnig amrywiol yn eu hwynebu pan ddaw'n fater o ddeall y prosesau cyfreithiol y byddant yn eu profi, o gael eu harestio i'r cam cyn-dedfrydu. Mae gwybodaeth o'r ymchwil wedi'i rhannu â chydweithwyr yn y Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd.

Mae prif ganfyddiad yr ymchwil, yr angen i ddatblygu arweiniad i fenywod wrth iddynt weithio'u ffordd drwy'r system gyfiawnder troseddol, hefyd yn cael ei ddatblygu gan y Gweithgor FOME a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2023.

Rydym am sicrhau bod staff sydd mewn cysylltiad â'r menywod wedi'u hyfforddi i'w helpu'n effeithiol. I wneud hyn, rydym yn datblygu hyfforddiant cymhwysra diwylliannol a fydd yn edrych ar effeithiau diwylliant, ffydd a chynnal perthnasoedd teuluol i fenywod o gefndir ethnig amrywiol. Rydym yn disgwyl y bydd y cwrs hwn wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i staff yn y ddwy flynedd nesaf. I gyd-fynd â hyn, mi fyddwn yn cynhyrchu canllaw i staff gweithredol ar sut i gryfhau a chynnal perthnasoedd cefnogol.